**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 28 IONAWR 2020 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Dirprwy Gadeirydd); Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); David Burley (Rheolwr Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:40
**Amser Gorffen:** 12:50

**Ymddiheuriadau:** Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr), Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes)

**1. Datganiadau Buddiant**

Dim. Ddim yn berthnasol.

**2. Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd**

2.1. Adroddodd y Dirprwy Gadeirydd ar y cyfarfod diweddaraf â Llywodraeth Cymru. Mae’r Gweinidog wedi caniatáu gorchymyn Sir Fynwy gydag amserlen bosibl o fis Awst / mis Medi, eleni. Mae’n debygol y bydd gan adroddiadau eraill a gwblhawyd amserlen debyg. Byddwn yn cael gwybod pan fydd y Gweinidog wedi penderfynu cymeradwyo Gorchymyn i ganiatáu i ni gael trafodaethau diweddaru ag awdurdodau lleol.

2.2. **Gweithredu –** Ceisio cyngor cyfreithiol ynglŷn â Sir Fynwy. Dylai’r Prif Weithredwr gysylltu ag Elaina yn Llywodraeth Cymru ynglŷn â chyngor cyfreithiol. Mae’r ffynonellau ar gyfer cyngor cyfreithiol annibynnol yn cynnwys Acuity, Hugh James ac Eversheds.

2.3. Nodwyd y dylai’r enwau Cymraeg y penderfynir arnynt gyd-fynd â’r gorchmynion, yn y lle cyntaf, a chyngor Comisiynydd y Gymraeg. Dylai’r rhesymau dros ddewis enwau perthnasol gael eu cynnwys yn yr adroddiadau a chofnodion cyfarfodydd.

2.4. Trafodwyd y bydd y rownd nesaf o Arolygon Etholiadol yn dechrau’n gynt ac yn gorffen yn gynt nag y cynlluniwyd yn wreiddiol. **Gweithredu –** Llunio

rheoliadau a chyflwyno cais pan ddaw i rym. Mis Medi 2023 yw'r dyddiad dechrau cyfredol. **Gweithredu –** Gofyn am is-ddeddfwriaeth.

2.5. **Nodwyd** bod dyddiad dechrau Comisiwn Ffiniau Cymru yn debygol o gael ei ddwyn ymlaen i'r Hydref 2020 neu ddechrau ym mis Ionawr 2021. Mae Comisiwn Ffiniau Lloegr yn ffafrio mis Ionawr 2021 fel dyddiad dechrau.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 22 Ionawr 2020 gan y Prif Weithredwr.

4.2. Nodwyd y bydd yr arolwg staff yn cael ei gynnal o fewn y mis nesaf. Yna, bydd y canlyniadau'n cael eu hystyried gan Is-bwyllgor y Gweithlu.

4.3. Pwysleisiwyd defnyddioldeb y Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd diweddar ar gyfer y tîm. **Gweithredu –** dylai'r Prif Weithredwr roi crynodeb o'r heriau a amlygwyd yn ystod y Diwrnodau Cwrdd i Ffwrdd a'r camau gweithredu y gellir eu cymryd.

4.4. **Gweithredu –** Dylai'r Prif Weithredwr a'r Dirprwy Brif Weithredwr grynhoi elfennau technegol Rhaglen Arolygon a chyflwyno'r crynodeb i'r Gymdeithas Diwygio Etholiadol sy'n casglu tystiolaeth cyn newidiadau deddfwriaethol.

4.5. **Gweithredu –** Dylai'r papur 'gwersi a ddysgwyd' ynglŷn â TGCh gael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

## 5. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 21 Ionawr 2020 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

5.2. **Nodwyd** bod pedwar arolwg etholiadol, ar y cam drafft, wedi symud ymlaen i'r cyfnodau ymgynghori ers cyfarfod diwethaf y Comisiwn. Mae'r rhain fel a ganlyn: Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Wrecsam.

5.3. Disgwylir i adroddiad cynigion drafft Bro Morgannwg gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ym mis Chwefror.

5.4. Disgwylir i adroddiad cynigion terfynol Abertawe gael ei gyhoeddi a'i ddosbarthu ym mis Mawrth.

5.5. Gofynnwyd i grynodeb o amrywiannau o ganlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer pob awdurdod unigol gael ei gynnwys yn yr Adroddiad ar Gynnydd Arolygon a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

5.6. Nodwyd bod Opsiynau Terfynol Arolwg Etholiadol Sir y Fflint ac Opsiynau Drafft Arolwg Etholiadol Ynys Môn i'w cynnwys yn agenda'r cyfarfod nesaf.

## 6. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Ionawr 2020 gan y Rheolwr Cyllid. Nodwyd bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu gweithredu.

6.2. **Cytunwyd** y dylai Risg CR1 ynglŷn â chyllid annigonol yn y dyfodol gael sgôr risg weddilliol is o 4 ac y dylai'r risg gael ei throsglwyddo i'r Gofrestr Risg Weithredol.

6.3. **Cytunwyd** y dylai Risg CR2 ynglŷn â chapasiti annigonol i gyflawni'r rhaglen arolygon gael sgôr risg weddilliol is o 4 ond y dylai'r risg aros ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

6.4. **Cytunwyd** ychwanegu cam gweithredu lliniarol ychwanegol at Risg CR3 mewn perthynas â'r sefyllfa o ran gorchymyn arolwg cymunedol Sir Fynwy.

6.5. **Cytunwyd** diwygio'r cam gweithredu lliniarol ar gyfer Risg CR3 mewn perthynas â'r gŵyn gan Ben-y-bont ar Ogwr i ddangos bod y gŵyn wedi derbyn sylw ac wedi'i chau erbyn hyn.

6.6. **Cytunwyd** dileu'r cam gweithredu lliniarol ar gyfer Risg CR4 ynglŷn â chynnal arolygon etholiadol yn seiliedig ar y trefniadau presennol, gan fod hyn bellach wedi'i ddisodli â'r amryw gamau gweithredu lliniarol yn ymwneud â gorchymyn arolwg cymunedol Sir Fynwy.

6.7. **Cytunwyd** ychwanegu cam gweithredu lliniarol ychwanegol at Risg CR4 ynglŷn â chael cyngor cyfreithiol ar b'un a all y Comisiwn gychwyn arolwg etholiadol Sir Fynwy heb gael gorchymyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy.

6.8. **Cytunwyd** dileu CR5 o'r gofrestr risgiau.

6.9. **Cytunwyd** ychwanegu cam gweithredu lliniarol ychwanegol at Risg CR6 ynglŷn â chael ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu gorchymyn ar gyfer arolwg cymunedol Sir Fynwy.

6.10. Ystyriodd y Comisiwn ei barodrwydd presennol i dderbyn risg yn unol ag argymhelliad archwiliad mewnol diweddar. **Cytunwyd** y byddai parodrwydd isel y Comisiwn i dderbyn risg yn cael ei gadw ac y gellid ystyried dileu risgiau â sgorau risg weddilliol isel o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

6.11. Ystyriodd y Comisiwn yr argymhelliad archwilio mewnol diweddar, sef y dylai ei fframwaith rheoli perfformiad gyd-fynd â'i amcanion corfforaethol. **Cytunwyd** bod Fframwaith Sicrwydd Bwrdd y Comisiwn yn mynd i'r afael â gofynion yr argymhelliad hwn yn ddigonol.

## 7. Adroddiad ar y Gyllideb

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 14 Ionawr 2020 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** y sefyllfa bresennol o ran y gyllideb.

7.2. Nodwyd a **chymeradwywyd** y bwriad o drosglwyddo arian rhwng categorïau cyllidebol i dalu am gost y plotydd newydd, ynghyd â mân orwariant amcangyfrifedig arall.

7.3. O ran y tanwariant amcangyfrifedig ar ddiwedd y flwyddyn, rhoddodd y Rheolwr Busnes ddiweddariad ar y sefyllfa bresennol ynglŷn â chaffael cronfeydd data newydd. Gobeithiwyd y gellid cwblhau'r ymarfer caffael hwn yn derfynol cyn diwedd y flwyddyn.

## 8. Hunanwerthuso gan y Bwrdd

8.1. Nodwyd bod y Comisiynwyr wedi cwblhau eu hunanwerthusiad ym mis Tachwedd 2019 a bod staff y Comisiwn wedi cwblhau eu hunanwerthusiad ym mis Rhagfyr 2019.

8.2. O ran y trefniadau i'r Comisiwn asesu ei berfformiad yn rheolaidd, **cytunwyd** llunio Cynllun Gwaith sy'n ymdrin â busnes y Comisiwn ac yn cynnwys adolygu polisïau Adnoddau Dynol ac adolygu'r Cynllun Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn. **Gweithredu –** Llunio Cynllun Gwaith sy'n ymdrin ag eitemau agenda cyfarfod y Comisiwn.

8.3. O ran integreiddio perfformiad ag adrodd ariannol, nodwyd y gallai arolygon gael eu costio ond y byddai hynny'n cynnwys costau wedi'u dosrannu i raddau helaeth.

8.4. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynhyrchu cynllun gweithredu yn dilyn pob ymarfer hunanasesu. **Cytunwyd** y byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei adolygu ddwywaith y flwyddyn. **Gweithredu –** Llunio Cynllun Gweithredu sy'n ymdrin â chanlyniad ymarferion gwerthuso diweddar y bwrdd.

8.5. **Cytunwyd** y byddai aelod gwahanol o staff yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ar sail rota a fyddai'n cael ei llunio yn ystod y cyfarfod tîm nesaf.

8.6. **Cytunwyd** y byddai asesiad y staff o fwrdd y Comisiwn yn dod o'r arolwg staff yn y dyfodol. **Cytunwyd** y byddai'r arolwg staff nesaf yn cael ei ail-lunio i gynnwys set ddrafft o gwestiynau ynglŷn â gwerthuso'r bwrdd.

8.7. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn penderfynu pa gwestiynau gwerthuso'r bwrdd i'w cynnwys yn yr arolwg staff yn ei gyfarfod ym mis Awst 2020. **Gweithredu –** Diweddaru'r Arolwg Staff yn dilyn penderfyniad ar gwestiynau newydd i'w cynnwys.

## 9. Polisïau Adnoddau Dynol

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 16 Rhagfyr 2019 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

9.2. Mae Cod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil wedi cael ei ddiweddaru.

9.3. Mae gwybodaeth am y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) wedi cael ei hychwanegu at y telerau a'r amodau.

9.4. **Gweithredu –** ceisio eglurhad gan Lywodraeth Cymru / yr Adran Noddi ynglŷn â gweithio i'r Comisiwn ac ymgysylltu gwleidyddol uniongyrchol.

9.5. **Gweithredu –** staff y Comisiwn i gymryd rhan mewn trafodaeth ynglŷn â'r posibilrwydd o gategoreiddio rolau swydd yn rhai sy'n 'sensitif' yn wleidyddol. Bydd y canlyniad yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Comisiwn.

## 10. Calendr Digwyddiadau

10.1. Opsiynau Terfynol Arolwg Etholiadol Sir y Fflint ac Opsiynau Drafft Arolwg Etholiadol Ynys Môn i'w cyflwyno yn y cyfarfod nesaf.

10.2. Dywedodd Julie May na fydd hi'n gallu dod i gyfarfod y Comisiwn ym mis Medi.

**11. Unrhyw Fater Arall Perthnasol**

11.1. **Cytunwyd** dileu'r adran 'Postio Llyfr' o'r rhestr wirio cynrychiolaethau, gan fod hyn yn dyblygu'r gronfa ddata.

11.2. **Cytunwyd** mai dim ond y Comisiynydd Arweiniol, ar gyfer pob arolwg, y mae angen iddo gael copïau caled o'r cynrychiolaethau. Fodd bynnag, gall y Comisiynwyr eraill ofyn am gopïau caled o gynrychiolaethau, os a phan fydd angen.

11.3. Dywedodd Julie May na fydd hi'n gallu dod i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) ym mis Chwefror.

**12. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: diwygiwyd i 3 Mawrth 2020**